

Cystadleuaeth Gelf Nodau Byd-Eang 2019

Dyma'ch cyfle i gael eich gwaith celf ar glawr adroddiad cyntaf y DU ar y cynnydd tuag at y Nodau Byd-Eang (sy'n cael eu galw hefyd yn Nodau Datblygu Cynaliadwy)

Pwy sy'n gymwys?

Mae'r Gystadleuaeth Gelf Nodau Byd-Eang ar agor i blant (7-15 oed) ledled y DU. Rydym yn chwilio am ddarlun neu baentiad gan blentyn sy'n byw yn y DU sy'n adlewyrchu cyfraniad y DU at y Nodau Byd-Eang (sy'n cael eu galw hefyd yn Nodau Datblygu Cynaliadwy) a beth mae'r Nodau yn ei olygu iddyn nhw.

Thema'r gystadleuaeth yw'r Nodau Byd-Eang a byddwn yn ei hyrwyddo ledled y DU.

Bydd y gystadleuaeth yn agor ar 12 Ebrill a bydd gennych bum wythnos i gyflwyno'ch gwaith. Y dyddiad cau yw **09:00 ar 17 Mai 2019.**

Bydd gwaith celf yr enillydd yn ymddangos ar glawr adroddiad cyntaf Arolwg Cenedlaethol Gwirfoddol y DU.

Cyflwyno cais

I gystadlu:

- Rhaid i'r gwaith celf fod mewn maint A4.
- Rhaid cyflwyno copïau wedi sganio neu luniau o'r gwaith celf mewn fformat manylder uchel (e.e. PNG / JPG).
- Rhaid cyflwyno'r gwaith celf i sdgs@dfid.gov.uk.
- Rhaid i riant/gwarcheidwad/ysgol gyflwyno'r gwaith celf ar ran y plentyn gyda caniatâd llawn yr ymgeisydd, yn cynnwys cadarnhad eu bod yn cytuno i'r telerau ac amodau isod. Rhaid bod ysgolion hefyd wedi cael caniatâd riant neu warcheidwad y plentyn.
- Chaiff plant ddim cyflwyno mwy nag un darn o waith celf yr un.
- Defnyddiwch y meini prawf beirniadu isod am ragor o ganllawiau
- Y dyddiad cau yw 09:00 ar 17 Mai 2019.

Telerau ac Amodau

Drwy gyflwyno darn o waith celf, ystyrir bod yr ymgeisydd wedi deall a derbyn y telerau ac amodau canlynol:

- Rhaid i bob darn o waith celf fod yn syniad a gwaith gwreiddiol y plentyn ac **ni** ddylai dorri hawliau unrhyw un arall.
- **Ni** ddylai'r gwaith celf gynnwys unrhyw wybodaeth bersonol.
- Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod unrhyw un sy'n ymddangos yn y gwaith celf wedi caniatáu i ddefnyddio'r ddelwedd ohonynt yn unol â'r telerau hyn.

- Caiff y gwaith celf buddugol ei ddefnyddio ar glawr adroddiad Arolwg Cenedlaethol Gwirfoddol y DU a gaiff ei gyflwyno i'r Cenedloedd Unedig ym mis Gorffennaf a'i gyhoeddi ar-lein.
- Drwy gyflwyno gwaith celf, rhaid i bob ymgeisydd (yn cynnwys yr enillydd a'r rheini ar y rhestr fer) roi eu caniatâd i ddefnyddio'r gwaith celf, am ddim, ar gyfer unrhyw weithgaredd arall sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Cenedlaethol Gwirfoddol, gan gynnwys ei gyhoeddi ar-lein, at ddibenion y cyfryngau cymdeithasol ac i'w harddangos, yn ogystal ag unrhyw weithgaredd cysylltiedig arall ar ôl cyhoeddi'r Arolwg Cenedlaethol Gwirfoddol.
- Drwy gyflwyno gwaith celf, bydd ymgeiswyr a'r rheini sy'n cyflwyno ar eu rhan yn cytuno y gall yr Adran Datblygu Rhyngwladol ddefnyddio eu gwybodaeth bersonol er mwyn gweinyddu'r gystadleuaeth, at ddibenion y wasg a hyrwyddo. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi (ar-lein neu mewn print) enw cyntaf, oed a lleoliad cyffredinol yr ymgeisydd wrth ochr ei waith celf, a hynny'n unol â'n Siarter Gwybodaeth Bersonol a'r Hysbysiad Preifatrwydd.
- Bydd ymgeiswyr yn fodlon i ni docio neu wneud mân addasiadau eraill i'r gwaith celf pan fydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r telerau hyn.

Hyrwyddo'r Gystadleuaeth

Caiff y gystadleuaeth ei hyrwyddo mewn nifer o ffyrdd, yn cynnwys:

- Sianelau cyfryngau cymdeithasol yr Adran Datblygu Rhyngwladol
- Y rhaglen Cysylltu Dosbarthiadau trwy Ddysgu Byd-Eang
- Sefydliadau partner yr Adran Datblygu Rhyngwladol megis y Cyngor Prydeinig, a Phrosiect Everyone
- Sianelau digidol Adran Addysg Llywodraeth y DU, ac adrannau eraill y Llywodraeth
- Y Gweinyddiaethau Datganoledig

Meini Prawf Beirniadu a'r Panel Dethol

Thema'r gystadleuaeth yw'r Nodau Byd-Eang. Gall y gwaith celf ddehongli'r Nodau Byd-Eang a materion sy'n ymwneud â'r Nodau Byd-Eang megis cynaliadwyedd neu bartneriaethau. Rydym yn gwerthfawrogi pob darn o waith a gyflwynir, ond allwn ni ddim ymateb i bob un yn uniongyrchol. Caiff y gwaith celf ei farnu ar y meini prawf canlynol:

- Creadigrwydd a gwreiddioldeb y gwaith celf
- Pa mor berthnasol ydyw i'r Nodau Byd-Eang
- Dehongli'r thema
- Ansawdd cyffredinol y dyluniad, y lliwiau a'r gwaith celf

Dyma aelodau'r panel dethol:

- Yr Arglwydd Bates, Gweinidog Gwladol, yr Adran Datblygu Rhyngwladol
- Pennaeth Cyfathrebu'r Adran Datblygu Rhyngwladol
- Pennaeth Tîm Cyfryngau'r Adran Datblygu Rhyngwladol

- Uwch Reolwr y Rhaglen Cysylltu Dosbarthiadau trwy Ddysgu Byd-Eang
- Tîm Nodau Byd-Eang yr Adran Datblygu Rhyngwladol

Gwybodaeth gefndir ar y Nodau Byd-Eang ac Arolwg Cenedlaethol Gwirfoddol y DU

Cafodd yr 17 Nod Byd-Eang ar gyfer Datblygu Cynaliadwy (sy'n cael eu galw hefyd yn Nodau Datblygu Cynaliadwy) eu mabwysiadu gan bob un o 193 aelod-wladwriaeth y Cenhedloedd Unedig yn 2015. Mae'r Nodau'n rhan o Agenda Datblygu Cynaliadwy 2030 y Cenhedloedd Unedig – sef cytundeb byd-eang i ddiddymu tldi a gwneud y byd yn lle gwell erbyn 2030. Roedd y DU wedi chwarae rhan ganolog yn y trafodaethau wrth osod y Nodau.

Mae'r 17 Nod Byd-Eang yn ceisio mynd i'r afael ag ystod eang o faterion sy'n wynebu gwledydd datblygedig a gwledydd sy'n datblygu. Mae'r Nodau'n cynnwys materion pwysig fel rhoi terfyn ar newyn, mynd i'r afael â newid hinsawdd, a chydaddoldeb rhwng y ddau ryw.

Fel rhan o Agenda 2030, mae'r DU yn adolygu ei gynnydd tuag at y Nodau Byd-Eang. Byddwn yn cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cenhedloedd Unedig dan y teitl Arolwg Cenedlaethol Gwirfoddol. Dyma'r tro cyntaf i'r DU lunio Arolwg Cenedlaethol Gwirfoddol a chaiff ei gyflwyno i'r Cenhedloedd Unedig ym mis Gorffennaf yn y Fforwm Gwleidyddol Lefel Uchel. Am ragor o wybodaeth am yr Arolwg Cenedlaethol Gwirfoddol, ewch i:

<https://www.gov.uk/sustainabledevelopmentgoals>

Am ragor o wybodaeth am y Nodau Byd-Eang, ewch i:

<https://sustainabledevelopment.un.org/sdgs>

